



# Adolygiad o'r Rhaglen Grantiau Her Cyfuno

## Crynodeb Gweithredol

### 1. Nodau a methodoleg yr ymchwil

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau adolygiad o Grantiau Her Cyfuno, un o agweddau allweddol y rhaglen Cyfuno, sy'n fenter a ariennir gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o gynyddu mynediad i ddiwylliant a chyfranogiad diwylliannol mewn ardaloedd diffreintiedig. Ers sefydlu Grantiau Her Cyfuno ym mis Chwefror 2017, mae wyth corff arweiniol, sydd wedi'u lleoli ledled Cymru, wedi cyflwyno rhaglenni diwylliannol strategol gyda'r nod o hyrwyddo a / neu gefnogi canlyniadau allweddol y rhaglen Cyfuno. Mae Grantiau Her Cyfuno hefyd wedi ariannu rôl cydlynwyr ym mhob un o'r meysydd partneriaeth cyfranogol hyn.
- 1.2 Rhan allweddol o'r gwerthusiad parhaus o Cyfuno oedd adolygu Grantiau Her Cyfuno a rôl y cydlynnydd fel rhan annatod o'r rhaglen hon. Nod yr ymchwil oedd cael barn a phrofiadau cydlynwyr lleol a sefydliadau partner y mae cydlynwyr wedi gweithio â nhw ar y ffordd y cafodd gweithgareddau Cyfuno eu dylunio a'u darparu. Bydd canfyddiadau'r adolygiad hwn yn cyfrannu at y dystiolaeth ar ddiwylliant a threchu tlodi yng Nghymru a fydd, yn ei dro, yn helpu i lywio datblygiad y rhaglen Cyfuno.
- 1.3 Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau arolwg ar-lein, a anfonwyd at gydlynwyr Cyfuno ac at randdeiliaid. Mae canfyddiadau'r ymchwil hefyd yn seiliedig ar gyfweiliadau ansoddol gyda phob un o'r wyth cydlynnydd, yn ogystal â chyfweiliadau â chynrychiolwyr o sefydliadau partner o rai o'r rhwydweithiau lefel partneriaeth.
- 1.4 Mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi canfyddiadau allweddol yr arolwg rhanddeiliaid ar-lein a'r cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda rhanddeiliaid.

### 2. Canfyddiadau allweddol

#### Dealltwriaeth o'r rhaglen Cyfuno a rôl y cydlynnydd

- 2.1 At ei gilydd, roedd barn y cydlynwyr a'r sefydliadau partner a gyfwelewyd am Cyfuno a'u hymwneud â'r rhaglen yn gadarnhaol.
- 2.2 Disgrifiodd y ddwy set o randdeiliaid sut roedd eu rhwydweithiau lleol yn cynnwys ystod eang o sefydliadau celfyddydol, treftadaeth a diwylliant, yn ychwanegol at y rhai nad oeddent o reidrwydd yn cael eu hystyried yn sefydliadau diwylliannol 'nodweddiadol', ond bod cyfranogiad ac ymgysylltiad rhai partneriaid yn amrywio ar draws yr ardaloedd.
- 2.3 I sefydliadau partner, nodwyd bod cael mynediad at rwydwaith partneriaeth Cyfuno amrywiol yn arbennig o fuddiol ac yn brif reswm dros ymuno â'r rhwydwaith neu aros yn rhan ohono. Roedd y manteision hyn yn aml yn cael eu geirio yn nhermau cael rhywbeth yn ôl o'r rhwydwaith, ond hefyd o ran cynnig eu harbenigedd a'u hadnodd eu hunain i rwydwaith

ehangach o sefydliadau a oedd yn cymryd rhan, gan rannu adnoddau, a chydweithio tuag at nodau cyffredin.

- 2.4 Ar draws y ddau grŵp o randdeiliaid, roedd dealltwriaeth gyson o'r hyn yr oedd y rhaglen Cyfuno yn ceisio'i gyflawni, gyda rhai cydlynwyr yn awgrymu eu bod yn teimlo bod gan bartneriaid Cyfuno well dealltwriaeth o rôl Cyfuno nawr ei bod wedi'i sefydlu ers sawl blwyddyn. Mynegodd y ddwy set o randdeiliaid ddealltwriaeth gadarn o weledigaeth gyffredinol Cyfuno, sef trechu tlodi drwy ehangu mynediad i ddiwylliant; drwy fynd i'r afael â rhwystrau sefydliadol a chanfyddiadol, gyda'r ddau grŵp o randdeiliaid yn disgrifio canlyniadau penodol y rhaglen megis gwella iechyd a llesiant, addysg a chyflogaeth. Rhoddwyd pwyslais penodol gan bartneriaid a chydlynwyr, ar amcan y rhaglen o annog gweithio mewn partneriaeth ar draws ac o fewn sectorau, er mwyn helpu i gyflawni nodau ehangach Cyfuno. Y cymhelliant mwyaf cyffredin i ymuno â'r rhaglen ymhlith partneriaid, fodd bynnag, oedd y canfyddiad o werthoedd cyffredin Cyfuno o ran y nod cyffredinol o drechu tlodi ac anfantais drwy annog cyfranogiad diwylliannol, a nodau ac amcanion eu sefydliad eu hunain.
- 2.5 Awgrymodd yr ymchwil hefyd fod cydlynwyr yn gweithredu mewn modd tebyg ar draws yr ardaloedd. Amlygwyd cwrmpas eang y rôl yn ystod trafodaeth â rhanddeiliaid, o ran cydlynwyr:
- cadw goruchwyliaeth a chael gwybodaeth am yr arlwy diwylliannol yn eu hardaloedd lleol (gan gynnwys nodi bylchau yn y ddarpariaeth),
  - datblygu a chynnal eu rhwydweithiau partneriaeth lleol, a brocera partneriaethau,
  - cyfathrebu â'u rhwydweithiau partneriaeth Cyfuno ac ar eu rhan,
  - helpu i ddarparu gweithgareddau Cyfuno eu hunain.
- 2.6 Fodd bynnag, roedd sgysrsiau ynghylch y rôl yn awgrymu bod rhai cydlynwyr yn aml yn newid rhwng rôl hwyluso a rôl mwy ymarferol o ddarparu gweithgareddau.

### **Y ffordd y mae Grantiau Her Cyfuno wedi'u dylunio a'u darparu**

- 2.7 Gofynnwyd i'r cydlynwyr a gyfwelwyd drafod y broses o sefydlu eu hardaloedd partneriaeth lleol. Roedd amryw o ffactorau wedi galluogi cydlynwyr i sefydlu eu partneriaethau Cyfuno lleol, gan gynnwys: profiad blaenorol o weithio gyda Cyfuno ac amrywiol grwpiau anodd eu cyrraedd, neu gysylltiadau partneriaid presennol eu cyrff arweiniol, yn ogystal â pharodrwydd sefydliadau partner. Cyflwynodd yr ymchwil dystiolaeth bod rhwydweithiau partneriaeth lleol yn parhau i ehangu, weithiau heb ymyrraeth uniongyrchol y cydlynwydd; er enghraifft gyda phartneriaid yn dewis cymryd rhan yn y rhaglen ar eu liwt eu hunain, neu'n cael eu denu gan bartneriaid eraill - gan awgrymu elfen o gyd-guradu wrth greu rhwydweithiau partneriaeth lleol.
- 2.8 Un o brif lwyddiannau'r rhaglen i bartneriaid a chydlynwyr fel ei gilydd yw ffocws y rhaglen ar weithio mewn partneriaeth gydgysylltiedig i drechu tlodi drwy gyfleoedd diwylliannol, a'i llwyddiant o ran hwyluso cysylltiadau rhyng-sectoraidd cryfach (e.e. rhwng partneriaid a rhaglenni blynnyddoedd cynnar). O ran y cydlynwyr a gyfwelwyd, roedd cefnogaeth partneriaid a'u parodrwydd i goleddu ethos y rhaglen wedi galluogi partneriaethau i greu mwy o gyfleoedd i dargedu grwpiau neu ddod â gwerth ychwanegol i brosiectau neu weithgareddau sy'n bodoli eisoes.
- 2.9 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd am eu barn ar effeithiolrwydd a llwyddiannau'r rhaglen, yn ogystal ag ar effeithiolrwydd rôl y cydlynwydd ac a yw'n cyflawni amcanion Cyfuno ar lefel ardal leol. Amlygodd ymatebion y rhanddeiliaid rôl gefnogol y cydlynwydd o ran cynnig cyngor ac arbenigedd i bartneriaid. Yn benodol, dangosodd yr ymchwil fod y Cydlynwyr Cyfuno lleol yn ychwanegu gwerth at eu hardaloedd partneriaeth lleol, o ran:

- cyfeirio partner at fwy o gyfleoedd hyfforddi a sicrhau mwy o fynediad i gyfleoedd o'r fath
  - cyfeirio partneriaid at gyfleoedd cyllido perthnasol a'u cynorthwyo i fanteisio arnynt
  - cynyddu hyder a gwybodaeth partner ym meysydd achredu a chyfleoedd gwirfoddoli.
- 2.10 Wrth drafod cynaliadwyedd eu rhwydweithiau partneriaeth lleol, roedd y Cydlynwyr a'r partneriaid Cyfuno yn teimlo bod hyn yn dibynnu ar waith cydlynu lleol. Disgrifiwyd rôl y cydlynnydd lleol fel rhan annatod o ran: cynnal goruchwyliaeth strategol o bartneriaeth Cyfuno leol; hwyluso a chynnal cyswllt rheolaidd rhwng partneriaid Cyfuno; ac ysgogi a chefnogi partneriaid i alinio a chanolbwyntio eu hadnoddau ac i feddwl a gweithio mewn ffyrdd mwy effeithiol.

### **Heriau a meysydd i'w gwella**

- 2.11 Er bod yr ymchwil wedi tynnu sylw at y ffaith bod rhanddeiliaid yn awyddus i'w sefydliadau arweiniol neu rwydweithiau barhau i ymwneud â Cyfuno, nododd y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil nifer o heriau gyda'u rhwydwaith ardal leol gan awgrymu gwelliannau. Roedd y meysydd i'w gwella yn dibynnu i raddau helaeth ar ffactorau'n ymwneud â chyfathrebu, er enghraifft:
- 2.12 Cyfathrebu o'r brig i lawr: awgrymwyd bod angen gwella'r ffordd yr oedd gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng swyddogion ar lefel y rhaglen, y corff cyflawni arweiniol a phartneriaid o fewn rhwydweithiau. Awgrymodd rhai cydlynwyr y gallai cyfathrebu cliriach ac amlach ar lefel rhaglen Cyfuno, o ran negeseuon ynghylch nodau, cylch gwaith a chanlyniadau'r rhaglen, wella cyfathrebu cyson ynghylch y rhaglen gan gydlynwyr a phartneriaid a rhyngddynt.
- 2.13 Marchnata a brandio: awgrymodd sawl cyfranogwr ymchwil y gellid gwneud gwelliannau i hyn, ac y gallai'r rhain yn eu tro arwain at well ymwybyddiaeth a thargeddu gweithgareddau'r rhaglen.
- 2.14 Cyfathrebu rhwng cydlynwyr: amlygodd yr ymchwil fod hyn yn tueddu i fod yn ysbeidiol ac yn ysgafn, a bod cydlynwyr yn awyddus i gyfathrebu â'i gilydd yn fwy rheolaidd mewn ffordd nad oedd wedi'i hwyluso, a allai fod o gymorth wrth rannu arferion gorau a gwersi i'w dysgu.
- 2.15 Tynnodd yr ymatebwyr sylw at gyfyngiadau ar adnoddau hefyd fel her. Er enghraifft, galwodd yr ymatebwyr am fuddsoddiad tymor hwy yn Cyfuno, gan egluro y byddai ymrwymiad ariannol o'r fath yn eu helpu i gyflawni mwy o weithgareddau dros gyfnod hwy, a fyddai'n ymgorffori'r rhaglen ymhellach ar lefel partneriaeth leol; yn ogystal â helpu i gael gwared ar yr ansicrwydd a'r diffyg ymrwymiad i'r rhaglen. Disgrifiwyd diffyg cyllidebau neu gyllidebau cyfyngedig hefyd fel her gan gydlynwyr, o ran cefnogi partneriaid i gyflawni a gwella'r nifer sy'n manteisio ar eu gweithgareddau Cyfuno. Awgrymodd sawl cydlynnydd yn benodol y dylid sefydlu cronfa o arian a rennir i fynd i'r afael â hyn.
- 2.16 Codwyd anawsterau o ran mesur effaith gweithgareddau diwylliannol gan sawl un a gymerodd ran yn yr ymchwil. Cwestiynodd llawer o gydlynwyr yr amserlen fer ar gyfer cyflawni canlyniadau gan gyfeirio at heriau yr oeddent wedi dod ar eu traws wrth gasglu a lledaenu data monitro, megis diffyg dealltwriaeth ymhlith partneriaid o'r rhesymeg a'r gofynion ar gyfer casglu a rhannu data. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid atebion posibl, megis cyfleu gwerth mesur allbynnau a chanlyniadau gweithgareddau yn well a chymell partneriaid i chwarae rôl fwy gweithredol.

### 3. Casgliadau

- 3.1 At ei gilydd, roedd gan y rhanddeiliaid agweddau cadarnhaol tuag at y rhaglen Cyfuno, ac roedd y partneriaid Cyfuno a gyfwelwyd yn awyddus i barhau i gymryd rhan yn y rhaglen. Dangosodd yr ymchwiler fod partneriaid Cyfuno, ar y cyfan, yn coleddu'r dull partneriaeth, a chyfeiriwyd yn rheolaidd at fanteision hyn, o ran cyfleoedd i rannu sgiliau, cyfuno arbenigedd ac adnoddau, a chydweithio tuag at yr un nodau. Ar gyfer cydlynwyr, roedd cefnogaeth partneriaid a'u parodrwydd i goleddu ethos y rhaglenni wedi galluogi partneriaethau i greu mwy o gyfleoedd i dargedu grwpiau neu ddod â gwerth ychwanegol i brosiectau neu weithgareddau sy'n bodoli eisoes.
- 3.2 Amlygodd yr ymchwiler rôl hollbwysig y cydlynwydd, o ran cynnal dull gweithredu wedi'i dargedu a'i gydlynwyr ymhlith partneriaid wrth ddarparu gweithgareddau - wedi'u galluogi drwy oruchwylio strategol gan gydlynwyr o'u hardaloedd partneriaeth lleol, a'r gefnogaeth a'r cyngor ychwanegol y gallant eu cynnig o fewn eu rhwydweithiau partneriaeth lleol.
- 3.3 Fodd bynnag, amlygodd yr ymchwiler y gallai rhai ffactorau helpu neu herio cydlynwydd i gyflawni ei rôl, a'r rhanddeiliaid sy'n cymryd rhan yn gyffredinol, o ran eu hymwneud â'r rhaglen Cyfuno. Er enghraifft, er bod yr ymchwiler wedi tynnu sylw at y ffaith bod agwedd allweddol ar rôl y cydlynwydd yn canolbwyntio ar gyfathrebu nodau a chanlyniadau'r rhaglen Cyfuno ar lefel partneriaeth lleol, amlygodd yr ymchwiler yn gyson bod lle i wella mewn perthynas â'r cyfathrebu o'r brig i lawr (e.e. ar lefel y rhaglen Cyfuno a lefel y prif gorff darparu), a allai yn ei dro baratoi cydlynwyr yn well i gyfathrebu nodau a chanlyniadau Cyfuno yn lleol mewn ffordd gyson. Awgrymodd y rhanddeiliaid hefyd y gellid dyrannu mwy o adnoddau i'r rhaglen, er enghraifft o ran buddsoddiad hirdymor yn y rhaglen, a'r adnoddau ariannol sydd ar gael i gydlynwyr. Teimlwyd y gallai hyn helpu i gefnogi a chymhell cyfranogiad partneriaid yn y rhaglen, yn ogystal â chefnogi cynllunio gweithgareddau yn yr hirdymor a mesur canlyniadau ac effaith y rhaglen.

Awduron yr Adroddiad: Polly Dempsey, Amgueddfa Cymru

Adroddiad Ymchwiler Llawn: Dempsey, P (2019). *Adolygiad o'r Rhaglen Grantiau Her Cyfuno*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwiler Gymdeithasol y Llywodraeth  
Ar gael yn: <https://llyw.cymru/adolygiad-or-rhaglen-grantiau-her-cyfuno>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Kathleen Mulready

Yr Is-adran Ymchwiler Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

Ebost: [kathleen.mulready@llyw.cymru](mailto:kathleen.mulready@llyw.cymru)

**OGL** © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83933-168-8